

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/3446/13

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Hydref 2013

Annwyl David

Ysgrifennaf atoch i'ch diweddarau ar y cynnydd ers ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Leihau'r Risg o Strôc.

Gweler yn amgaaedig Atodiad sy'n dangos diweddariad ar bob un o argymhellion a chynigion yr Adroddiad.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style.

Mark Drakeford AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Lleihau'r risg o strôc – ymchwiliad dilynol – diweddariad Llywodraeth Cymru yn erbyn Argymhellion a Chynigion

Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad llawn a thrylwyr o'r modd y caiff Cynllun Llywodraeth Cymru i Leihau'r Risg o Strôc ei roi ar waith, gan gynnwys yr holl randdeiliaid. Dylid cyhoeddi'r gwerthusiad a defnyddio'r canlyniadau i ddatblygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc. (Tudalen 16)</p>	<p>Derbyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwyd i lechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc. Caiff hyn ei wneud yn yr ychydig fisoedd nesaf a bydd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun. Disgwylir i'r gwerthusiad hwn gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2012 a bydd y canfyddiadau ar gael yn dilyn hynny. • Bydd y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc yn helpu i lywio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n anelu at leihau'r risg o strôc. • Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau strôc (y disgwylir ymgynghori arno yn y Gwanwyn) yn ystyried y gwerthusiad a bydd yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i alluogi pobl i fwynhau ansawdd bywyd da heb gael clefyd fasgwlaidd na strôc. 	<p>Fe wnaeth lechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gwerthusiad o'r modd y rhoddwyd y Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc ar waith yng ngwanwyn 2012. Roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys ystyried cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau a gynhwysir yn y cynllun, yn ogystal â thrafodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol. Rhoddodd y gwerthusiad ystyriaeth i ymatebion ysgrifenedig a llafar yn ogystal â thrafodaeth mewn gweithdy rhanddeiliaid.</p> <p>Roedd adroddiad lechyd Cyhoeddus Cymru'n cefnogi'r farn fod cynnydd da'n cael ei wneud wrth weithredu'r camau yn y Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc. Fe wnaeth nifer o argymhellion hefyd, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar elfennau ataliol y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol dilynol ar gyfer gwasanaethau strôc.</p> <p>Defnyddiwyd canfyddiadau gwaith lechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer strôc, a rhoddwyd sylw i'r mwyafrif o argymhellion lechyd Cyhoeddus Cymru yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyflawni'n ddogfen lefel uchel ac felly nid oedd yn ceisio cynnwys y math o fanylder</p>

		a awgrymwyd mewn rhai argymhellion.
--	--	-------------------------------------

Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n glir at atal strôc eilaidd yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc, ac at drin a gwneud diagnosis o TIA, o ran ei gysylltiad â'r gwaith i leihau'r risg o strôc. (Tudalen 18)</p>	<p>Derbyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau strôc yn nodi camau clir y mae angen eu cymryd o ran atal, canfod a thrin strôc a Phyliau o Isgemia Dros Dro. • Eir ati i geisio atal strôc eilaidd pan fydd y claf yn gwella ar ôl cael y strôc gyntaf a rhoddir pwyslais ar hynny pan y'i rhyddheir drwy feddyginiaeth atal strôc eilaidd briodol a chyingor ar reoli'r risgiau. • Mae'r Rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy wedi llunio pecyn cymorth i wella gwasanaethau i'r rheini sydd wedi cael TIA i atal strôc lawn. Mae'r gwaith hwn, sy'n ystyried y modd y caiff TIA ei asesu a'i reoli, eisoes wedi dechrau ymdrin â lleihau'r risg o strôc ddilynol. • Dylai pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru allu asesu, fel mater o drefn, TIA risg isel o fewn wythnos a TIA risg uchel o fewn 24 awr (rhwng dydd Llun a dydd Gwener). Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau y gellir asesu TIA risg uchel o fewn 24 awr saith diwrnod yr wythnos a chaiff hyn ei gefnogi a'i gydgyssylltu gan yr 	<p>Mae un o'r themâu cyflawni o fewn y Cynllun Cyflawni ar gyfer gwasanaethau strôc a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2012 yn canolbwyntio ar atal strôc gan gynnwys pwl o isgemia dros dro (TIA), ffibriliad atrïaidd a strôc eilaidd. Mae'n cynnwys camau clir i Fyrddau Iechyd weithredu arnynt.</p> <p>Mae Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol (mylocalhealthservice.wales.gov.uk), a lansiwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 30 Medi 2013, yn rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella tryloywder yn y system iechyd a darparu gwybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd ar wasanaethau iechyd yn eu hardal leol. Cafodd dau ddangosydd, sy'n berthnasol i strôc, eu rhyddhau yn y gyfran gyntaf o ddata. Y cyntaf yw'r gyfradd o bobl rhwng 35 a 74 oed a gafodd dderbyniad brys am strôc a fu farw yn yr ysbyty o fewn 30 diwrnod. Yr ail yw dangosydd o ofal sylfaenol o'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd. Cafodd y wefan ei lansio'n llwyddiannus ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gyhoeddi a diweddarau mwy o ddata.</p> <p>Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae clinigwyr gofal sylfaenol yn rhoi blaenoriaeth i reoli ffactorau risg cardiofasgwlaidd ee rheoli Pwysedd Gwaed, rhoi'r gorau i ysmegu, rheoli ffordd o fyw (pwysau ac ymarfer corff) yn ogystal â rheoli TIA fel yr amlinellir yn y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau.</p> <p>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi mabwysiadu fframwaith gwella canlyniadau sydd ac iddo'r nod o sicrhau bod pobl sy'n cael eu hatgyfeirio am lawdriniaeth fel mater o drefn yn mynychu rhaglen ffordd o fyw (os oes ganddynt Fyngai Màs y Corff</p>

	<p>Uned Cyflenwi a Chymorth.</p>	<p>uchel) – mae hyn yn arwydd o’u bwriad i ganolbwyntio ar hunan-reoli risgiau ffordd o fyw, a fydd yn lleihau achosion o strôc os rheolir hwy’n well.</p> <p>Mae staff meddygol gofal sylfaenol ac eilaidd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cydweithio gydag addysg ar rôl gwrthgeulo mewn ffibriliad artiaidd. Mae tair sesiwn addysg yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd ac yn cael eu cyflwyno gan feddygon gofal eilaidd yn flynyddol trwy sesiynau addysg sefydledig gofal sylfaenol. Ceisir cyllid ar gyfer gwaith gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i wella’r ffordd y mae cleifion yr amheuir eu bod yn dioddef strôc neu TIA yn cael eu hadnabod yn gynnar trwy ddefnyddio algorithmau wedi’u dilysu a systemau asesu sgoriau megis ‘FAST’ (prawf i adnabod symptomau strôc) a ‘ROSIER’ (dull o asesu a yw person wed cael strôc) ac ‘ABCD2’ (dull rhagweld ar gyfer y cleifion sy’n fwyaf tebygol o ddioddef TIA). Mae awydd penodol i adnabod cymaint ag sy’n bosibl o gleifion TIA posibl i drefnu gofal sylfaenol ac eilaidd dilynol er mwyn atal achosion pellach o TIA a strôc bosibl.</p>
--	----------------------------------	---

Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, erbyn Ebrill 2012, ac yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd, yn sicrhau bod clinigau TIA ar agor saith diwrnod yr wythnos a bod canllawiau clinigol mewn perthynas ag endarterectomi carotid yn cael eu dilyn ledled Cymru. (Tudalen 23)</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff asesiadau TIA eu cynnal ar yr un safle lle y darperir gwasanaethau strôc aciwt, a dylai pob Bwrdd lechyd yng Nghymru allu asesu, fel mater o drefn, TIA risg isel o fewn wythnos a TIA risg uchel o fewn 24 awr (rhwng dydd Llun a dydd Gwener). Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Byrddau lechyd i sicrhau y gellir asesu TIA risg uchel o fewn 24 awr saith diwrnod yr wythnos drwy'r gwasanaeth asesiadau meddygol aciwt drwy naill ai dderbyn claf neu gyflwyno cynllun boddhaol ar gyfer ei asesu, ymchwilio iddo a'i drin. Mae protocol yn cael ei ddatblygu a bydd yn galluogi Byrddau lechyd i gael gafael ar dimau meddygol ar alw. Caiff y protocol ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Meddygol a'i weithredu o fis Ebrill 2012. • Mae canllawiau clinigol NICE yn nodi'n glir bod angen i gleifion endarterectomi carotid (CEA) gael llawdriniaeth ar rydweliâu'r gwddf cyn gynted â phosibl er mwyn atal strôc. Mae'n ofynnol cynnal llawdriniaethau mewn 	<p>Mae pob Bwrdd lechyd bellach yn gallu asesu fel mater o drefn TIA risg isel o fewn wythnos a TIA risg uchel o fewn 24 awr.</p> <p>Mae 1000 o Fywydau a Mwy wedi cynhyrchu Canllawiau i wneud Gwasanaethau TIA yn fwy dibynadwy. Mae o fewn y rhain ddiagram gyrru sy'n cynnwys y 4 elfen o ofal ar gyfer asesu a rheoli TIA. Disgwylir i Fyrddau lechyd gasglu'r data ac anelu at welliant parhaus fis ar ôl mis.</p> <p>Mae'r gyfran o gleifion TIA risg uchel a reolir yn briodol yn feddygol ac yn llawfeddygol yn y fframwaith canlyniadau a gyhoeddir gyda'r cynllun cyflawni.</p> <p>Mae holl gynlluniau gweithredu'r Byrddau lechyd yn crybwyll asesu a rheoli TIA.</p> <p>Yn ogystal, mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr bellach wedi lansio'r Rhaglen Archwiliad Strôc Genedlaethol (SSNAP) ac rydym yn ei gyflwyno'n raddol. Nid yw'r archwiliad yn cynnwys adran ar reoli TIA ond bydd yr RCP yn cyflawni rhywfaint o archwiliadau penodol ychwanegol a bydd TIA yn un o'r rhain. Byddwn yn sicrhau bod yr archwiliadau penodol hyn hefyd yn cael eu gwneud ar safleoedd yng Nghymru.</p> <p>Mae Bwrdd lechyd Aneurin Bevan yn asesu'r mwyafrif o gleifion TIA risg uchel o fewn 24 awr a'r rheini sydd angen sgan Doppler ar yr un diwrnod. Asesir pob claf risg isel o fewn 7 diwrnod.</p> <p>Mae gan Fwrdd lechyd Hywel Dda wasanaethau ym mhob un o'i ysbytai i wasanaethau a atgyfeirir gyda TIA. Mae asesiad a thriniaeth gychwynnol ar gyfer TIA ar gael bob</p>

	<p>achosion brys o fewn saith diwrnod ac mewn achosion eraill, o fewn 14 diwrnod i'r symptomau ddechrau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennodd Dr Chris Jones, Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, at y Byrddau Iechyd ym mis Mehefin 2011 yn gofyn am sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad archwilio RCS ym maes endarterectomi carotid ac yn sicrhau bod y llawdriniaeth hon ar gael yn haws fel rhan o'u gwaith parhaus i wella gwasanaethau strôc. Disgwyliaf i'r rownd nesaf o archwiliadau clinigol ddangos gwelliant sylweddol. 	<p>dydd drwy eu hadrannau brys. Mae "clinigau poeth" TIA i'r cleifion sydd mewn mwyaf o risg wedi eu datblygu'n helaeth yn Sir Gaerfyrddin a blaenoriaeth allweddol o fewn eu cynllun datblygu lleol yw gwella gwasanaethau TIA drwy'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig gwneud archwiliadau carotid yn fwy hygyrch. Maent yn gweithio'n agos hefyd gyda'u Bwrdd Iechyd cyfagos, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, trwy'r rhwydwaith fasgwlaidd fel bod llawdriniaeth carotid ar gael yn fwy amserol.</p> <p>Rydym yn siomedig mai ychydig o welliant sydd wedi bod yng nghyfraddau cyfranogi Cymru yn yr archwiliad SSNAP ac er bod rhywfaint o welliant wedi bod tuag at gydymffurfio â'r gofyniad i gyflawni llawdriniaeth o fewn 14 diwrnod o symptomau (7 diwrnod mewn achosion brys), rydym yn dal i fod yn gyffredinol ar ôl gwledydd eraill yn y DU. Bydd Dr Chris Jones, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yn codi'r mater hwn gyda Byrddau Iechyd Lleol.</p>
--	--	---

Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn arfer safonol mesur pwls cleifion sy'n ymweld â lleoliad gofal cychwynnol os daw ffactorau risg cysylltiedig â strôc i'r amlwg. Os oes angen unrhyw driniaeth yn dilyn hynny, dylai'r driniaeth gydymffurfio â chanllawiau NICE, ac mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylid monitro i ba raddau mae'r canllawiau'n cael eu dilyn drwy ddefnyddio archwiliadau lechyd Cyhoeddus Cymru o ddata cofnodion gofal cychwynnol. (Tudalen 31)</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae canllawiau NICE yn argymhell y dylid mesur pwls cleifion sydd â symptomau diffyg anadl neu dyspnoea, crychguriadau, llesmair neu bendro, anesmwythder yn y frest neu strôc/TIA. • Ar hyn o bryd, nid yw polisi Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) yn argymhell y dylid sgrinio ar gyfer ffibriliad atrïaidd. Mae'r argymhelliad hwn yn destun adolygiad ar hyn o bryd a ddylai ddod i ben erbyn mis Mawrth 2012. Bydd swyddogion ac arbenigwyr sgrinio yn ystyried argymhellion adolygiad UK NSC a'r goblygiadau i Gymru pan fyddant ar gael. • Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob clinigwr ystyried canllawiau o'r fath er mwyn gwneud penderfyniadau clinigol priodol wrth asesu a rheoli cyflyrau o'r fath. • Mae'r Byrddau lechyd yn cynnal digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus rheolaidd i sicrhau bod canllawiau o'r fath yn cael eu cynnwys mewn arfer lleol. • Mae ymarferwyr hefyd yn cynnal arfarniad blynyddol i adolygu anghenion dysgu a nodir a gweithgareddau addysgol a gynhelir, er 	<p>Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer gwasanaethau strôc yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau lechyd weithredu canllawiau NICE sy'n ymwneud â strôc a sicrhau trwy archwilio fod gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n unol â'r canllawiau.</p> <p>Bydd y rhaglen Ffibriliad Atrïaidd 1000 o Fywydau yn edrych ar ffyrdd o gyflwyno dull sgrinio tebyg i GRASP-AF (dull haenau risg) i'r rheini sy'n adnabyddus eisoes i feddygon teulu fel rhai â Ffibriliad Atrïaidd. Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (NSC) y DU wedi amcangyfrif y cwblheir yr adolygiad o sgrinio Ffibriliad Atrïaidd ym mis Tachwedd 2013. Cynhelir cyfarfod o NSC y DU ym mis Tachwedd; bydd swyddogion yn ceisio cael diweddariad ar gynnydd yn y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Ym mis Mai 2013 cyflwynwyd ymgyrch genedlaethol ymwybyddiaeth strôc drwy'r 712 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Cefnogwyd yr ymgyrch gan y Gymdeithas Stôc, Byrddau lechyd a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac fe'i cydgysylltwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Yn ystod yr ymgyrch roedd fferyllfeydd yn darparu cyngor ar fesurau ffordd o fyw a allai leihau'r risg o</p>

	<p>mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth briodol. Bydd trafodaethau arfarnu yn cyfeirio at archwiliadau a gynhaliwyd o fewn y feddygfa, a allai gynnwys y defnydd o becyn cymorth lechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi derbyn mewn egwyddor er nad ydym yn derbyn yr argymhelliad y dylid monitro cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio archwiliadau lechyd Cyhoeddus Cymru o ddata cofnodion gofal sylfaenol. Mae'r archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar wella ansawdd, nid monitro penderfyniadau clinigol. 	<p>gael strôc ac yn cynnig ymgynghoriadau adolygiad o'r defnydd o feddyginiaethau i bobl a oedd yn cymryd meddyginiaeth at bwysedd gwaed uchel neu feddyginiaeth gwrthgeulo trwy'r geg i leihau eu risg o strôc. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i wella dealltwriaeth a defnydd cleifion unigolion o feddyginiaethau ac yn cadarnhau pwysigrwydd glynu at feddyginiaethau fel ffordd y gellid lleihau eu risg o gael strôc. Roedd fferyllwyr yn cael eu hannog i flaenoriaethu cleifion a oedd yn cymryd meddyginiaeth at bwysedd gwaed uchel neu feddyginiaeth gwrthgeulo trwy'r geg ar gyfer ymgynghoriadau adolygu defnydd o feddyginiaethau yn ystod cyfnod yr ymgyrch.</p> <p>Yn ystod cyfnod yr ymgyrch cyflawnwyd 10,059 o ymgynghoriadau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau gyda phobl yr oedd eu meddyginiaeth yn dangos eu bod mewn risg uwch o strôc.</p>
--	---	--

Argymhellion	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu arweiniad clir ar gyfer timau gofal cychwynnol a thimau adnoddau cymunedol o ran gwneud diagnosis o ffibriliad atrïaidd a thrin a rheoli'r cyflwr a'i bod yn cynnig diffiniad clir o gyfrifoldebau proffesiynol ym mhob maes. (Tudalen 42)</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae canllawiau eisoes ar gael. Mae canllawiau NICE ar nodi achosion o ffibriliad atrïaidd a'u rheoli ar gael i bob aelod o staff clinigol a lluniwyd canllaw i gleifion hefyd. • Fel rhan o 1000 o Fywydau a Mwy, mae'r Gwasanaeth Ansawdd a Gwybodaeth Gofal Sylfaenol wedi llunio canllaw i helpu meddygfeydd i reoli ffibriliad atrïaidd mewn modd amserol. • Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc hefyd yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir wrth ddarparu gwasanaethau strôc. • Ar hyn o bryd, nid yw polisi Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) yn argymhell y dylid sgrinio ar gyfer ffibriliad atrïaidd. Mae'r argymhelliad hwn yn destun adolygiad ar hyn o bryd a ddylai ddod i ben erbyn mis Mawrth 2012. Bydd swyddogion ac arbenigwyr sgrinio yn ystyried argymhellion adolygiad UK NSC a'r goblygiadau i Gymru pan fyddant ar gael. • Bydd cyfrifoldebau proffesiynol yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth aelodau'r tîm, strwythur y tîm a threfniadau llwybr lleol. Er enghraifft, meddygon teulu sy'n gyfrifol am nodi a 	<p>Fe wnaeth 1000 o Fywydau a Mwy/lechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi'r Canllawiau Gwella Cyflym Gofal Sylfaenol Ffibriliad Atrïaidd ym mis Mehefin 2013.</p> <p>Mae'r dull rhagfynegi clinigol "CHADsVASC" ar gyfer risg strôc i gleifion â ffibriliad atrïaidd bellach ar gael i benderfynu'r angen am wrthblatennau neu wrthgeulyddion a bydd yn dilyn ymlaen o'r rhaglen 1000 o Fywydau fel y bydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y rheolaeth broffylactig gywir.</p> <p>Bydd cyflwyno gwrgelyddion mwy newydd trwy'r geg hefyd yn cyfrannu at wella gofal cleifion ffibriliad atrïaidd.</p>

	<p>diagnosio achosion o ffibriliad atriaidd i gychwyn, a chaiff cleifion sydd newydd gael diagnosis eu hatgyfeirio am ecocardiograffi a bydd cardiolegwyr yn helpu i reoli cleifion.</p>	
--	--	--

Cynnig	Ymateb Llywodraeth Cymru	Cynnydd
<p>Cynnig 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y prinder meddygon strôc hyfforddedig drwy ddefnyddio cynlluniau gweithlu effeithiol. (Tudalen 19)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yng Nghymru, caiff bron yr holl wasanaethau gofal ac adsefydlu aciwt o ran strôc eu darparu gan geriatregwyr isarbenigol sydd â chyfrifoldebau meddygol ychwanegol. • Mae Cymru wedi cytuno ar y swydd hyfforddi benodedig gyntaf ar gyfer strôc, sydd wedi'i hysbysebu'n genedlaethol fel blwyddyn ychwanegol o hyfforddiant mewn meddygaeth strôc. • Hefyd, mae meddygon gofal strôc penodedig wedi'u penodi mewn rhai unedau sydd â mynediad i hyfforddiant strôc arbenigol i ôl-raddedigion. • Caiff yr angen am feddygon strôc yn y dyfodol ei ddiwallu drwy'r cynlluniau gweithlu ar gyfer staff meddygol. 	<p>Mae datblygiadau wedi bod mewn lefelau staffio meddygol yng Nghymru. Fe wnaeth y Cofrestrwydd Arbenigol (StR) cyntaf mewn strôc a oedd yn cyflawni swydd hyfforddi un flwyddyn yn arwain at Dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant Arbenigol (CCST) mewn meddygaeth strôc gwblhau ei flwyddyn yng Nghaerdydd a'r Fro ym mis Awst 2013 ac mae'n disgwyl i ymgeisio am y swydd yn Nhreforys. Bydd yn gymwys i ymgeisio o gwmpas mis Rhagfyr eleni neu ar ôl hynny.</p> <p>Ers mis Awst 2013, mae gennym bellach 4 o swyddi hyfforddi StR yng Nghymru, a'r rheini ym Myrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan, Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Yn ogystal, mae gennym bellach 2 ymgynghorydd strôc llawn amser yn eu swyddi yng Nghaerdydd a'r Fro ac yn Aneurin Bevan sydd wedi cyflawni swyddi hyfforddiant yn Llundain ac Aberdeen ac sydd â CCST mewn strôc. Mae 2 ymgynghorydd arall wedi cael eu penodi ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (yn Wrecsam a Bangor) a bydd strôc yn rhan o gynlluniau swydd y ddau hyn.</p> <p>Mae StR Gofal yr Henoed arall ym Mwrdd Iechyd Betswi Cadwaladr eisoes wedi cyflawni swydd hyfforddiant mewn strôc yn Lloegr.</p>

Cynnig 2: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried arfer gorau wrth sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn cynnig arweinyddiaeth ym maes strôc ac yncyflwyno canllawiau arfer da y dylai pob Bwrdd Iechyd Lleol lynu wrthynt. (Tudalen 21)

Cynnig 3: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu Cydrwydweithiau'r Galon a Strôc ledled Cymru. (Tudalen 21)

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld bod lle i gryfhau gwasanaethau presennol i atal clefyd cardiofasgwlaidd, sy'n cynnwys strôc a chlefyd y galon. Rydym wedi gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru weithio ar draws Cymru i helpu Byrddau Iechyd i ddatblygu dull mwy systematig a chydgyssylltiedig o nodi'r rhai sydd â risg o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd a rheoli'r risg honno'n effeithiol. Caiff y gwaith hwn ei adlewyrchu yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc.
- Mae Cyfarwyddwr Meddygol y GIG wedi penderfynu'n ddiweddar i gydnabod Cynghrair Strôc Cymru fel Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ffurfiol, a fydd yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth a chyngor clinigol amlddisgyblaethol ledled Cymru. Bydd y Grŵp Cynghori Arbenigol hwn yn rhan o'r Grŵp sy'n arwain ac yn goruchwyllo ymdrechion y Byrddau Iechyd i wella gwasanaethau strôc ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau i atal strôc. Bydd y Bwrdd Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc yn awyddus i gael arweinwyr clinigol

Mae Adam Cairns, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cael ei benodi fel y Prif Weithredwr Arweiniol ar gyfer Strôc a Chadeirydd y Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth glinigol gwasanaethau strôc yng Nghymru a byddwn yn ystyried yr angen am Rwydwaith Strôc fel rhan o'r gwaith hwn.

	<p>cryfach er mwyn sicrhau y caiff y disgwyliadau mewn perthynas â gwasanaethau strôc eu bodloni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn lleol, mater i'r Byrddau lechyd yw sicrhau bod ganddynt arweinyddiaeth glinigol effeithiol a strwythurau i gydweithio â Byrddau lechyd eraill i gynllunio a darparu gofal strôc effeithiol, megis Rhwydweithiau. Fodd bynnag, mae gan bob Bwrdd lechyd arweinydd gweithredol sy'n gyfrifol am strôc, arweinydd clinigol ar gyfer strôc a Bwrdd Cyflawni ar gyfer Strôc eisoes. • Mae canllawiau arfer da ar gael eisoes drwy Ganllawiau Clinigol Cenedlaethol RCP ar gyfer Strôc a chanllawiau NICE. 	
<p>Cynnig 4: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc yn cynnwys yr holl elfennau sydd ynghlwm wrth ofal strôc, o leihau risg i adsefydlu ac ailalluogi cleifion. (Tudalen 25)</p>	<p>Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc yn cynnwys yr holl elfennau sydd ynghlwm wrth ofal strôc gan gynnwys atal, diagnosis, trin, adsefydlu a bywyd ar ôl strôc.</p>	<p>Bydd y themâu cyflawni o fewn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc yn cynnwys y llwybr gofal cyfan sydd ynglŷn â strôc, o atal at fywyd ar ôl strôc.</p>
<p>Cynnig 5: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc. (Tudalen 25)</p>	<p>Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol i'r Byrddau lechyd o ran sicrhau bod pobl sydd wedi cael strôc yn cael gofal effeithiol. Felly, ymgynghorir ag awdurdodau lleol fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Cyflawni'r GIG ar gyfer Strôc.</p>	<p>Rhodddwyd cyfle i awdurdodau lleol roi sylwadau ar y cynllun cyflawni ar gyfer strôc yn ystod yr ymgynghori ac fe'u cynrychiolir ar y Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc.</p>
<p>Cynnig 6: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd newydd o</p>	<p>Mae canllawiau NICE yn allweddol er mwyn darparu gofal clinigol.</p>	<p>Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu cynlluniau gofal personol gyda phwyslais ar</p>

<p>sicrhau bod meddygon teulu'n cydymffurfio â chanllawiau NICE, a bod cleifion yn cael y wybodaeth i ganiatáu iddynt wneud penderfyniad deallus. Dylid monitro i ba raddau y maent yn cydymffurfio drwy ddefnyddio archwiliadau lechyd Cyhoeddus Cymru o ddata cofnodion gofal cychwynol. (Tudalen 34)</p>	<p>Mae'r Byrddau lechyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff canllawiau o'r fath eu defnyddio'n briodol. Fodd bynnag, nid yw canllawiau yn disodli cyfrifoldeb clinigol; felly, ni fyddai'n briodol i geisio monitro 'cydymffurfiaeth'.</p> <p>Mae'n bwysig bod cleifion yn cael gwybodaeth dda drwy ddulliau priodol fel y gallant gyfrannu mewn modd deallus i benderfyniadau am eu cynlluniau triniaeth eu hunain. Croesewid camau i wneud penderfyniadau ar y cyd.</p> <p>Mae data'r QOF yn rhoi gwybodaeth i feddygfeydd unigol fel y gallant asesu a gwella eu perfformiad eu hunain. Mae'r Byrddau lechyd yn cael data cymharol i'w helpu i gynnal adolygiadau cymheiriaid lleol a datrys unrhyw bryderon ynghylch perfformiad. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi gwaith dadansoddi o'r fath drwy ddarparu pecynnau cymorth ar gyfer archwiliadau.</p>	<p>gleifion yn gallu cyfrannu mewn modd deallus at y dewisiadau a'r penderfyniadau.</p> <p>Mae Byrddau lechyd yn parhau i fonitro data rhagnodi er mwyn dadansoddi'r nifer sy'n cymryd amrywiaeth o ddewisiadau therepiwtig. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen trwy'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Strôc.</p>
<p>Cynnig 7: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cefnogi'r cynigion i newid dangosyddion y QOF sy'n ymwneud â ffibriliad atrïaidd, a sicrhau bod dangosyddion y QOF yn gwahaniaethu rhwng darparu triniaeth gwrthgeulo a thriniaeth gwrthblatennau i gleifion ffibriliad atrïaidd. (Tudalen 35)</p>	<p>Byddwn yn ystyried y cyngor a roddwyd gan NICE ar gyfer unrhyw newid arfaethedig i'r QOF. Penderfyniad clinigol yw dewis rhwng triniaethau gwrthblatennau a gwrthgeulo - rydym am i gleifion gael dewis yn y mater hwn gyda chymorth trafodaeth ar y dystiolaeth briodol, gan gynnwys risgiau a manteision y ddwy driniaeth.</p>	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau gan NICE ar hyn o bryd i ddiwygio dangosyddion perthynasol y QOF.</p> <p>Mae canllawiau'r QOF yn defnyddio'r system haenu risg CHADS 2 i arwain y cynnig o ddewisiadau triniaeth – mae hyn yn unol â Chanllawiau'r Gymdeithas Gardioleg Ewropeaidd.</p>
<p>Cynnig 8: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cefnogi'r syniad o gyflwyno a defnyddio</p>	<p>O fis Ebrill 2012, bydd newidiadau i'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn cynnwys dangosydd</p>	<p>Mae Gwasanaeth Ansawdd a Gwybodaeth Gofal Sylfaenol lechyd Cyhoeddus Cymru wedi</p>

<p>system GRASP-AF mewn meddygfeydd. (Tudalen 37)</p>	<p>newydd i sicrhau bod pob claf sydd ar Gofrestr Ffibriliad Atriaidd yn cael asesiad rheolaidd gan ddefnyddio system sgorio haeniad risg ffurfiol. Gellir gwneud hyn drwy chwiliad cyfrifiadurol (fel yn achos system GRASP-AF) neu drwy adolygu'r cofnod clinigol ar bapur. Bydd disgwyl i'r Byrddau Iechyd drafod â meddygfeydd y prosesau sydd ar waith i wneud y cyfrifiadau hyn a rhannu'r wybodaeth â chleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau ar sut i reoli eu cyflwr yn y dyfodol.</p>	<p>cynhyrchu pecyn cymorth i helpu practisau unigol i adolygu'r ffordd y maent yn cyflwyno gofal ffibriliad atriaidd er mwyn hyrwyddo gwelliant mewn ansawdd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys defnyddio data lleol atodol.</p> <p>Mae'r Rhaglen 1000 o Fywydau newydd yn defnyddio fersiwn Cymreig o GRAPS-AF i'r rheini y gwyddys eu bod yn dioddef o ffibriliad atriaidd.</p>
<p>Cynnig 9: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried system werthuso systematig ar gyfer pob ymgyrch hybu iechyd y bydd yn ei hariannu'n rhannol, neu'n llawn, a'i bod yn bwydo'r casgliadau'n uniongyrchol i'r gwaith o gynllunio a datblygu ymgyrchoedd yn y dyfodol. Dylid rhannu'r wybodaeth â phartneriaid er mwyn rhannu arfer da a gwersi a ddysgir. (Tudalen 39)</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig gwerthuso ymgyrchoedd hybu iechyd yn effeithiol, er mwyn sicrhau gwerth am arian a mesur effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd. Mae gwaith gwerthuso o'r fath hefyd yn allweddol o ran llywio cynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol a'u cynnwys. Mae'r egwyddorion hyn yn elfen bwysig o'r gwaith o gynllunio pob ymgyrch gwella iechyd a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Caiff y pwys a roddir ar werthuso ei adlewyrchu yn yr ymgyrchoedd gwella iechyd cyfredol canlynol:</p> <p><i>i) Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o beryglon ysmegu mewn ceir gyda phlant</i></p> <p>Mae gwerthusiadau o ymgyrchoedd torfol blaenorol i roi'r gorau i ysmegu wedi dangos y gallant gael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol, a all</p>	<p>Mae gwerthuso'n dal i ffurfio elfen bwysig o ymgyrchoedd gwella iechyd a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Cydnabyddwn bwysigrwydd gwerthuso trylwyr wrth alluogi i lwyddiant gael ei fesur yn briodol, ac er mwyn darparu tystiolaeth werthfawr fel gwybodaeth ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol.</p> <p>Gellir darlunio dull Llywodraeth Cymru o werthuso trwy gyfeirio at nifer o ymgyrchoedd cyfredol:</p> <p>Mae ymgyrch Cychwyn Iach Cymru i dynnu sylw at beryglon ysmegu mewn ceir lle mae plant yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd. Mae'r gwaith wedi cynnwys comisiynu Arolygon Omnibws i fonitro ymwybyddiaeth o'r ymgyrchu, yn ogystal â chomisiynu Prifysgol Caerdydd i gynnal astudiaeth o'r graddau y</p>

	<p>gyfrannu at leihad cyffredinol yn y defnydd o dybaco a chynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i ysmegu. Fel rhan o'r ymgyrch newydd i godi ymwybyddiaeth o beryglon ysmegu mewn ceir gyda phlant, comisiynwyd arolwg omnibws i bennu faint o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am ysmegu mewn ceir ac agweddau at hynny. Ailadroddir yr Arolwg ddwywaith y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Caiff data sydd eisoes yn bodoli ei ddadansoddi hefyd a gwneir rhagor o waith ymchwil i gynnal arolwg ymhlith plant oed ysgol er mwyn amcangyfrif i ba raddau y maent yn dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir. Ar y cyd, bydd y camau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu pa mor llwyddiannus fu'r ymgyrch o ran lleihau'r graddau y mae plant yn dod i gysylltiad â mwg mewn ceir.</p> <p><i>ii) Newid am Oes</i> Mae <i>Newid am Oes</i> yn rhan o ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i helpu pobl Cymru i sicrhau pwysau corff iach a chynnal y pwysau hwnnw; bwyta'n iach, symud mwy a byw bywydau hwy. Mae'r ymgyrch yng Nghymru yn adeiladu ar ddatblygiadau yn Lloegr, ac mae'r dull gwerthuso yng Nghymru yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o fuddsoddiad sylweddol Lloegr mewn gwaith i werthuso a monitro'r ymgyrch. Mae hyn yn cynnwys monitro nifer yr ymweliadau â'r</p>	<p>mae plant oedran ysgol gynradd yn agored i fwg ail law mewn ceir ac mewn mannau eraill. Defnyddir tystiolaeth a gesglir trwy waith gwerthuso ac unrhyw ymchwil cysylltiedig wrth lywio'r ymgyrch a'n cyfeiriad polisi – ac mae hyn yn digwydd yn barhaus.</p> <p>Mae <i>Newid am Oes Cymru</i> yn parhau i ddilyn y rhaglen a ddefnyddir yn Lloegr ac mae wedi ehangu i feysydd newydd yn ddiweddar (megis alcohol a halen). Rydym yn parhau i ddefnyddio'r hyn a ddysgir o weithgareddau gwerthuso ac ymchwil Lloegr, ac i gasglu gwybodaeth sy'n seiliedig ar nifer o ddangosyddion gan gynnwys cofrestriadau ac ymweliadau ar y we. Yn ogystal, ail-gysylltwyd yn 2012 â theuluoedd a ymunodd â'r rhaglen yn 2010, er mwyn asesu effaith ar y rhaglen ar yr ymddygiadau a adroddwyd am eu plant, a chynhwyswyd cwestiynau sy'n anelu at fesur ymwybyddiaeth o'r ymgyrch mewn Arolwg Omnibws Cymreig diweddar. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir trwy'r gwaith hwn ar gyfer rheoli'r rhaglen yn barhaus.</p> <p>Yn ogystal ag mewn ymgyrchoedd gwella iechyd penodol, mae ystyriaethau gwerthuso'n cael eu hymgorffori hefyd mewn rhaglenni a mentrau newydd. Mae hyn yn ein galluogi ni i fonitro effeithiolrwydd nifer o ymyraethau. Er enghraifft, mae gwerthuso'n cael ei</p>
--	--	---

	<p>wefan ac ystadegau iechyd, ac ym mis Ebrill 2012, bydd teuluoedd yng Nghymru sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen ers dros 12 mis yn cael yr un holiadur ffordd o fyw y gwnaethant ei gwblhau'n wreiddiol ar gyfer pob plentyn. Yna caiff y canlyniadau eu cymharu i weld a ydynt wedi newid eu hymddygiad o ran bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.</p>	<p>wau i mewn i ddatblygiad ein rhaglen gwiriadau iechyd ar gyfer pobl dros 50 oed yng Nghymru.</p> <p>Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad o nifer o raglenni gwella iechyd, megis Dim Ysmygu Cymru a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, sy'n cyfrannu at leihau risg o strôc. Mae adroddiad yr adolygiad wedi cael ei gyhoeddi ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn adeiladu ar argymhellion yr adroddiad.</p>
<p>Cynnig 10: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau i'r rhaglenni hyfforddi a datblygu presennol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol godi ymwybyddiaeth o ffibriliad atrïaidd ac ychwanegu at eu gwybodaeth am y cyflwr. (Tudalen 43)</p>	<p>Yn ei rôl fel y comisiynydd addysg anfeddygol, bydd yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) yn ystyried cyfleoedd gyda darparwyr iechyd fel ateb hirdymor.</p> <p>Yn y tymor byr i'r tymor canolig, bydd y Byrddau Iechyd yn defnyddio'r broses Adolygu Datblygiad Personol i nodi anghenion datblygu staff mewn meysydd clinigol.</p> <p>Mae rhwydweithiau'r galon wedi cynnal digwyddiadau gyda'r Cynghrair Arhythmia a'r Cynghrair Ffibriliad Atrïaidd ar hyn. Gellid datblygu hyn ymhellach yn rhanbarthol i sicrhau y caiff mwy o feddygfeydd eu cynnwys.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i feithrin cydberthnasau gyda'r Cynghrair Strôc/y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol i gefnogi</p>	<p>Mae Fforwm Hyfforddiant Strôc y DU wedi cynhyrchu Fframwaith Addysgol cynhwysfawr sy'n benodol ar gyfer Strôc (SSEF) er mwyn helpu atgyfnerthu'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Strôc Lloegr. Mae is-grŵp Addysg Cynghrair Strôc Cymru wedi cael ei ailffurfio, ac maent yn ystyried sut y gellir cyflwyno Fframwaith Addysgol Penodol ar gyfer Strôc yng Nghymru a darparu'r hyfforddiant a'r addysg angenrheidiol ar gyfer yr elfennau angenrheidiol o hyn i Gymru.</p>

	ymwybyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad.	
--	--	--